



## Cyngor Llyfrau Cymru

Adran Datblygu Cyhoeddi

---

### Gwahoddiad i Dendro

#### Grantiau Cyhoeddi Saesneg Cylchgronau Diwylliannol 2024–2028

Gwahoddir ceisiadau am gyllid pedair blynedd o dan y Grant Cylchgronau Diwylliannol.

Mae'r cynllun yn cefnogi nifer o gylchgronau diwylliannol sy'n cynnwys ysgrifennu da, newyddiaduraeth o ansawdd uchel, adolygiadau a thrafod ar ystod o bynciau.

Am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2028, bydd ceisiadau gan gyhoeddwr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru yn cael eu hystyried yn un o'r meysydd canlynol:

#### Cyllid ar gyfer cylchgronau cyffredinol

- Darperir grantiau ar gyfer cylchgronau cyffredinol sy'n cynnwys ysgrifennu da a newyddiaduraeth o ansawdd uchel, adolygiadau a thrafod o bob math.
- Dylai cylchgronau gynnwys sylw i amrywiaeth o bynciau. Gallai meysydd pwnc posibl gynnwys materion cyfoes, gwleidyddiaeth, hanes, economeg, y celfyddydau (e.e. celfyddydau gweledol, cerddoriaeth, drama, dawns a llenyddiaeth), diwylliant (gan gynnwys diwylliant poblogaidd), y cyfryngau, yr amgylchedd, chwaraeon a hamdden.
- Mae'r isafswm cylchrediad cyfartalog fesul rhifyn ar draws pob plattform wedi'i bennu fel 1,000.
- Byddwn yn anelu at ariannu ar gymhareb gerio (h.y. cyfran o incwm grant i incwm a gynhyrchir o ffynonellau eraill) hyd at 2:1 **neu** hyd at 50% o gyfanswm y gwariant (gweler yr adran 'Y Grant' isod am ragor o wybodaeth).
- Dylai cylchgronau cymwys fod ar gael mewn mwy nag un fformat (e.e. gwe/ap/e-rifyn/print ac ati).
- Gellir rhoi grantiau i dderbynwyr lluosog.
- Rhagwelir y byddai'r cyllid ar gyfer cylchgronau cyffredinol yn amrywio rhwng £2,500 a thua £55,000.

#### Cyllid ar gyfer cylchgronau llenyddol

- Darperir cyllid ar gyfer cylchgronau llenyddol o ansawdd da a ysgrifennwyd yn ddeniadol yng Nghymru sy'n ymdrin ag un neu fwy o'r meysydd canlynol fel eu prif ffocws: ffuglen fer, barddoniaeth, ffeithiol greadigol, adolygiadau/beirniadaeth lenyddol. Dylai ysgrifennu llenyddol fod yn brif ffocws cylchgronau a ariennir yn y maes hwn, ond nid oes angen iddo fod yn unig ffocws.
- Gall cylchgronau gael un ffocws neu gynnwys cyfuniad o'r uchod. Rhagwelir y byddai dyrannu cyllid yn sicrhau'r bylchau lleiaf posibl yn y ddarpariaeth, tra'n osgoi gorgyffwrdd sylweddol o ran deunydd.

- Rhaid i gylchgronau a ariennir o dan y pennawd hwn gynnwys adolygiadau o lyfrau er mwyn cefnogi'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru yn ei gyfanrwydd.
- Byddwn yn anelu at ariannu ar gymhareb gerio (h.y. cyfran o incwm grant i incwm a gynhyrchir o ffynonellau eraill) o hyd at 2:1 **neu** hyd at 50% o gyfanswm y gwariant.
- Gall cylchgronau cymwys fod yn ddigidol yn unig neu gael eu cyflwyno ar lwyfannau lluosog (gan gynnwys print). Gall cyhoeddwr ddewis cyflwyno gwahanol rifynnau o'r un cylchgrawn ar fformatau ar wahân os dymunant (er enghraifft, rhifynnau digidol rheolaidd a chyhoeddiadau print a gyhoeddir yn llai aml, megis rhifynnau digidol misol ynghyd â chrynodeb printiedig blynyddol, dau rifyn digidol yn unig ynghyd â dau rifyn print a digidol y flwyddyn ac ati).
- Yr isafswm cylchrediad cyfartalog fesul rhifyn o gylchgrawn un ffocws fydd 400.
- Yr isafswm cylchrediad cyfartalog fesul rhifyn ar gyfer cylchgrawn aml-ffocws fydd 500.
- Rhagwelir y byddai cyllid ar gyfer cylchgronau o'r math hwn yn amrywio o tua £2,500 i tua £55,000.

### Cyllid ar gyfer datblygu

- Darperir cyllid sbarduno ar gyfer mentrau newydd, arloesol sy'n cynnwys ysgrifennu da, deniadol.
- Bydd grantiau o'r gronfa hon yn cael eu darparu i gyhoeddwr cylchgronau yng Nghymru am un cyfnod trwydded yn unig (ac wedi hynny gall ymgeiswyr wneud cais am gyllid naill ai fel cylchgronau 'cyffredinol' neu 'llynyddol').
- Mae ceisiadau digidol, print a hybrid yn gymwys.
- Rhagwelir y byddai cyllid ar gyfer cylchgronau o'r math hwn yn amrywio o tua £2,500 i tua £10,000.

Sylwch, er bod cyllid yn y maes hwn yn anelu at ddatblygu syniadau newydd a mentrau newydd, mae croeso i ymgeiswyr newydd wneud cais am gymorth grant o dan y penawdau eraill yn lle hynny.

## **Cymhwysedd a Chymhwyster**

*Pwy all wneud cais*

### **Dim ond cwmnïau cyhoeddi yng Nghymru all wneud cais.**

Rhaid i'r rhai sy'n derbyn grantiau dros £8,000 y flwyddyn fod yn gyrff corfforedig cyfreithiol; yn gyffredinol bydd y rhain yn gwmnïau di-elw cyfyngedig trwy warant.

Rhaid i'r rhai sy'n derbyn grantiau llai gael cyfrifon banc ar wahân a threfniadau priodol ar gyfer rheolaeth ariannol a chyffredinol.

### **Nid yw'r cynllun yn ariannu:**

cylchgronau bach sy'n debygol o werthu dim mwy na 400 copi (gweler canllawiau Cynllun Cylchgronau Bach Saesneg);  
 cylchgronau addysgol neu gyfnodolion academiaidd;  
 cylchgronau a gyhoeddir gan fudiadau a chymdeithasau, oni bai bod ganddynt apêl y tu hwnt i aelodaeth y sefydliadau;  
 cylchgronau o ddiddordeb lleol.

## Y Grant

- Cyfanswm y gyllideb flynyddol ar gyfer y cynllun hwn yw tua £180,000.
- Anelir lefel y grant ar gyfer cylchgronau cyffredinol a llenyddol at gyrraedd cymhareb gerio o hyd at 2:1 (hy byddai cyllid Cyngor Llyfrau Cymru yn darparu hyd at ddwy ran o dair o gyfanswm incwm y cylchgrawn, gydag o leiaf traean o'r incwm i'w gynhyrchu gan gyhoeddwr y cylchgronau trwy werthiant, refeniw hysbysebu, nawdd, cyfraniadau o fath arall ac ati. Am ganllawiau ar gyfrifo cyfraniad o fath arall gweler atodiad 1 y ddogfen hon).
- Mae cyllid ar gyfer teitl unigol a ddyfernir o dan y pennawd cyffredinol neu lenyddol yn debygol o amrywio rhwng £2,500 a thua £55,000 y flwyddyn.
- Mae cyllid ar gyfer teitl unigol a ddyfernir o dan bennawd y gronfa ddatblygu yn debygol o amrywio rhwng £2,500 a thua £10,000 y flwyddyn.
- Cynigir grantiau fel trwyddedau pedair blynedd, yn amodol ar adolygiad blynyddol boddhaol o ddeiliad y drwydded, ac yn amodol ar barhad cyllid gan Lywodraeth Cymru.

## Meini Prawf a Blaenoriaethau Aseu

Ym mhroses ymgeisio 2024-2028, rhoddir ystyriaeth benodol i'r materion canlynol:

- Ymrwymiad i ysgrifennu deniadol o ansawdd da, trafodaeth wybodus a safonau golygyddol uchel
- Polisiâu golygyddol penodol sy'n adlewyrchu ymrwymiad i amrywiaeth, cynwysoldeb, a hygyrchedd mewn cyhoeddi, yn unol â chynllun strategol y Cyngor Llyfrau – h.y. rhaid i ymgeiswyr weithredu polisi ffurfiol ar gyfer comisiynu llenorion heb gynrychiolaeth ddigonol, sicrhau amrywiaeth o ran aelodaeth y Bwrdd, ac ehangu'r ystod o unigolion sy'n cyfrannu at gynhyrchu
- Y gallu i wneud cyfraniad sylweddol i ddiwylliant Cymru
- Ymrwymiad amlwg i ddatblygu sgiliau ac iechyd yr ecosystem gyhoeddi yng Nghymru (e.e., trwy weithredu cynlluniau mentora, gan gynnwys aelodaeth bwrdd tymor byr), a chyfluoedd mewn dylunio, golygyddol, ac ysgrifennu cyfranwyr)
- Eglurder rôl mewn perthynas â chylchgronau eraill. Bydd y Cyngor Llyfrau yn ystyried a yw teitl arfaethedig yn debygol o lenwi bwch yn y ddarpariaeth *neu* berfformio'n fwy effeithiol na theitlau sy'n cystadlu yn yr un maes
- Gwerth am arian (gan gynnwys rheolaeth ddarvoudus ac effeithlon o gostau a'r grant rhagamcanol am bob copi a werthir)
- Y gallu i ddenu cyllid, nawdd a chyfraniadau o fath arall o ffynonellau eraill
- Y gallu i gadw at amserlen gyhoeddi
- Marchnata a chyhoeddusrwydd, gyda phwyslais ar gyrraedd a datblygu darllenwyr
- Gallu'r ymgeisydd i ddosbarthu ledled Cymru a (lle bo'n briodol) y tu hwnt i Gymru
- Dylunio a chynhyrchu (yn briodol i'r fformat a'r farchnad)
- Y gallu i ddatblygu cynnwys mewn fformatau lluosog (e.e. print, gwe, ap, e-rifyn ayb.)
- Hanes (os yn berthnasol)

## Ceisiadau

### Cam 1:

Sylwch mai proses ymgeisio dau gam yw hon. Yn ystod y cam cychwynnol mae'n rhaid i bob ymgeisydd gyflwyno ffurflen gais fer (gyda'r ddogfen hon). Rhaid dychwelyd hon i'r Adran Datblygu Cyhoeddi trwy e-bost (cyfeiriad ar waelod y ddogfen hon) erbyn **5pm ar 25 Awst 2023**. Bydd unrhyw eglurhad neu bryderon arwyddocaol yn cael eu trafod gydag ymgeiswyr cyn dechrau Cam 2.

### Cam 2:

Dylai ceisiadau gynnwys y canlynol:

1) **Ffurflen gais (dim ond os oes unrhyw newidiadau i'r ffurflen a gyflwynwyd yng ngham 1).**

2) **Adroddiad naratif** gydag adrannau ac isadrannau fel a ganlyn:

Os yw'r un wybodaeth yn berthnasol i sawl un o'r penawdau, nid oes angen i chi ailadrodd gwybodaeth a ddarparwyd mewn man arall yn yr adroddiad naratif. Gallwch hepgor pennawd os ydych eisoes wedi darparu'r wybodaeth hon. Rhowch sylw i'r nifer geiriau a nodir; gallai methu â gwneud hynny arwain at ddychwelyd eich cais atoch i'w golygu.

**i. Naratif hanesyddol - hyd at 10,000 o eiriau**

Dylai'r adran hon dynnu sylw at unrhyw lwyddiannau penodol gan roi sylw arbennig i'r 12 mis blaenorol (dylai cylchgronau a ariennir ar hyn o bryd grynhoi'r gwaith o lwyddo i gyrraedd targedau a nodi meysydd y mae angen eu gwella yn ystod cyfnod y drwydded bresennol); dylid ymdrin â'r materion canlynol hefyd (nid yw hon yn rhestr gyflawn):

- a. Polisi golygyddol a gweledigaeth y cylchgrawn
- b. Dylunio a chynhyrchu
- c. Staffio
- d. Gwerthiant a dosbarthu
- e. Marchnata a chyhoeddusrwydd
- f. Gwefan a chyhoeddi digidol
- g. Cyllid

Gall cyhoeddwyr cylchgronau nad ydynt yn weithredol ar hyn o bryd adael yr adran hon yn wag.

**ii. Cynlluniau a rhagamcanion ar gyfer y dyfodol – hyd at 10,000 o eiriau**

Dylai'r adran hon nodi cynlluniau a pholisi ar gyfer cyfnod y drwydded 2024-2028:

- a. Polisi a chynlluniau golygyddol
- b. Cynlluniau dylunio
- c. Staffio (gan gynnwys bywgraffiadau cryno a phrofiad lle bo'n berthnasol, trefniadau staffio presennol a chynlluniau ar gyfer datblygu a chadw staff)
- d. Strategaeth gwerthu a dosbarthu
- e. Polisi a chynlluniau marchnata a chyhoeddusrwydd
- f. Cynlluniau ar gyfer datblygu gwefannau a datblygu fformatau digidol
- g. Rhagamcanion ariannol, gan gynnwys cyllid/nawdd posibl arall
- h. Amlinelliad byr o fesur eich llwyddiant – sut beth fyddai blwyddyn lwyddiannus ar gyfer eich cyhoeddiad?

3) **Ffigurau gwerthiant a rhagolygon** (defnyddiwch y ffurflen a ddarperir)

4) **Cyllidebau** (defnyddiwch y ffurflenni a ddarperir)

- i. Elw a cholled chwe mis (os nad ydych yn gweithredu ar hyn o bryd, gallwch adael yr adran hon yn wag)
- ii. Rhagamcanion cyllideb blwyddyn

iii. Mantolen

- 5) **Cyfrifon blynyddol llawn** ar gyfer diwedd eich blwyddyn ddiweddaraf
- 6) **Strwythur y cwmni** (defnyddiwch y ffurflen a ddarparwyd, a nodwch unrhyw newidiadau i'r Bwrdd, ac ati)
- 7) **Wyth rhifyn sampl (cylchgronau a ariennir ar hyn o bryd )  
Wyth copi enghreifftiol o ddau rifyn diweddar o'r cylchgrawn (ymgeiswyr newydd).**  
Os yw'r cais gan gylchgrawn sy'n bodoli eisoes, dylid anfon copiâu o rifynnau blaenorol. Yn achos cylchgronau arfaethedig newydd neu adrannau arfaethedig newydd (neu newidiadau sylweddol i gylchgronau presennol), dylid cynnwys y canlynol: braslun llawn o'r rhifyn cyntaf, gan gynnwys cynllun y clawr; golygyddol enghreifftiol, os yw'n berthnasol; tudalen gynnwys, a chynnwys cyfan (gan gynnwys delweddau, os yn berthnasol) yn dangos dyluniad mewnol, cynllun a phapur. Dylid cyflwyno cynlluniau amlinellol ar gyfer y tri rhifyn dilynol hefyd.

### **Fformat:**

Dylech gyflwyno'r holl ddeunydd **erbyn 6 Hydref 2023** yn y fformatau canlynol:

Drwy e-bost yn Word ac Excel i [English.Grants@llyfrau.cymru](mailto:English.Grants@llyfrau.cymru) (gyda'r llinell pwnc 'Cymhwyster Cylchgronau Diwylliannol')

### **Amserlen:**

Dyddiad cau ar gyfer ffurflen gais Cam 1: 25 Awst 2023  
Dyddiad Cau Cais Llawn: 6 Hydref 2023  
Llunio rhestr fer a chyfweliadau: Tachwedd-Rhagfyr 2023  
Hysbysiad o benderfyniadau: Rhagfyr 2023  
Cefnogaeth ariannol i ddechrau: 1 Ebrill 2024

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gymhwysedd neu'r broses ymgeisio, cysylltwch ag Ashley Owen, Adran Datblygu Cyhoeddi, Cyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2JB Ffôn: 01970 629555 E-bost: [English.Grants@llyfrau.cymru](mailto:English.Grants@llyfrau.cymru)

Mae fersiwn Saesneg o'r canllawiau hyn ar gael.  
An English-language version of these guidelines is available.

## Atodiad 1

### Canllawiau ar gyfer Cyfraniadau o Fath Arall

Bydd cyfraniadau o fath arall yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth asesu incwm yr ymgeisydd a phenderfynu ar lefel y grant y gellir ei roi yn unol â meini prawf y gymhareb ariannu cyfatebol 2:1 sy'n ofynnol gan Gyngor Llyfrau Cymru. Dylai ymgeiswyr ddefnyddio'r canllawiau canlynol wrth gyfrifo gwerth eu cyfraniadau o fath arall. Bydd angen i chi ddweud wrthym sut yr ydych wedi cyfrifo hyn.

- Gallai cyfraniadau gynnwys cyfrifiaduron neu offer arall a roddwyd; defnyddio eiddo a roddwyd yn benodol, a darparu gofod swyddfa a chostau cysylltiedig a ddarperir gan y sefydliad cynnal. Dylid prisio'r rhain fel a ganlyn: dylai offer a roddir yn rhodd gael ei gynnwys ar bris y farchnad a hysbysebwr os yw'n newydd, neu ar amcangyfrif rhesymol o'r pris ail law os nad yw'n newydd. Dylid cyfrifo defnydd eiddo a ddarperir ar gyfer y sefydliad yn ôl y gwerth marchnad priodol; a dylid cyfrifo gofod swyddfa a chostau cysylltiedig megis taliadau ffôn, llungopio ac ati yn ôl gwerth priodol y farchnad. Os caiff ei rannu â defnyddwyr eraill dylid rhannu'r gost yn gymesur.
- Bydd y cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i ddangos sut y mae wedi cyfrifo gwerth marchnad yr eitemau a rentir neu a brynir: Dylech ddarparu tystiolaeth o werth masnachol, megis cyfraddau cyhoeddedig ar gyfer llogi eiddo, neu restr brisiau ar gyfer offer a gwasanaethau.
- Gall gostyngiadau cyflenwyr gael eu cynnwys yn cyfraniadau o fath arall pan fyddant yn dangos cefnogaeth amlwg i'r sefydliad, er enghraifft gostyngiad pris argraffu gan gwmni argraffu o Gymru a roddir yn benodol i gydnabod rôl y sefydliad yn niwylliant Cymru. Ond rhaid i ddisgowntiau sy'n cyd-fynd â'r maen prawf hwn gael eu cadarnhau gan y cyflenwr fel disgownt sy'n benodol i'r sefydliad fel cyfraniad, yn hytrach na gostyngiad masnach safonol.
- Gellir cyfrifo cyngor ac arbenigedd arbenigol a ddarperir yn rhad ac am ddim a mathau eraill o lafur gwirfoddol a roddir i'r sefydliad fel cyfraniadau o fath arall. Gall cyfraddau cyfraniadau llafur gwirfoddol amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar natur y gwaith a wnaed.
- Dylech gyfrifo'r gyfradd yn ôl y gwerth marchnad priodol ar gyfer yr hyn y byddai'n ei gostio i chi logi'r llafur neu'r gwasanaethau sy'n cael eu rhoi. Bydd angen i ni weld tystiolaeth glir o sut yr ydych wedi cyrraedd y cyfraddau yr ydych yn eu defnyddio. Gall eich tystiolaeth gynnwys cyfraddau dyddiol cyhoeddedig ar gyfer ymgynghoriaeth neu gyngor cyfreithiol neu amcangyfrifon o gyflogau rhesymol ar gyfer y math o waith a roddir, er enghraifft dylid cyfrifo cyfradd intern ar isafswm cyflog i adlewyrchu natur weinyddol sylfaenol y rôl. Os yw intern yn cael ei gyflogi fel quid pro quo gyda sefydliad cynnal, ni ddylid ystyried hyn fel cyfraniadau o fath arall, oherwydd yn yr achos hwn, mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu i'r cyfrannwr.
- Ni ddylai aelodau bwrdd cwmnïau cyfyngedig trwy warant (dosbarthiad dielw) dderbyn cydnabyddiaeth ariannol am eu dyletswyddau disgwylidiedig fel aelod bwrdd. Os bydd aelod o'r bwrdd yn rhoi llafur neu wasanaethau gwirfoddol, yn dechnegol bydd yn derbyn swm ariannol am y llafur neu'r gwasanaeth hwnnw gan fod ganddo werth ariannol. Felly, dim ond os yw'n waith y tu hwnt i'w dyletswyddau disgwylidiedig arferol fel aelod bwrdd y gellir cyfrif unrhyw lafur neu wasanaethau gwirfoddol a roddwyd gan aelodau bwrdd cwmnïau cyfyngedig drwy warant, ac y gellir dangos yn glir nad yw'n cynrychioli gwrthdaro buddiannau.

Mae fersiwn Saesneg o'r canllawiau hyn ar gael.  
An English-language version of these guidelines is available.